# Llythyrau at y Golygydd

Yr Hen Ficerdy,
Rhiwabon,
WRECSAM
LL14 6LG


Annwyl Olygydd,

Yn ystod haf sych 1976 fe aeth cydnabod imi am bicnic i Lyn Celyn. Yr oedd dŵr y llyn yn isel ac fe gerddodd at ei ymyl. Yno, gwelodd yn gorwedd yn y llaid lechen wedi ei hamgáu mewn blwch pren pydredig. Aeth â hi adref ac fe'i gosododd mewn blwch pren newydd.

Ychydig wythnosau yn ôl rhoddodd y dyn y llechen i mi. Amgaeaf lun ohoni fel y mae heddiw. Y mae'n amlwg mai enw tŷ yng Nghapel Celyn sydd arni, ac felly y mae'n bosib y gallai fod o werth sentimental i rywun.

A oes modd cyhoeddi'r nodyn hwn ynghyd â'r llun yn un o rifynnau *Y Casglwr*? Bydd yn wir dda gennyf gael cartref priodol i lechen Ty'n-y-bont, a byddaf yn fwy na pharod i'w chyflwyno i bwy bynnag y bydd ganddo hawl foesol, fel petai, iddi.

Yn gywir,
Tom Ellis




---

## GEO WEB:
## Ffrind bob Casglwr

*(parhad o dud 4)*

clicio ar y botwm *e-bost*. Mae hyn yn eich galluogi i anfon rhestr o gofnodion llawn, o unrhyw nifer, at gyfrif e-bost o'ch dewis. Os oes gennych ddiddordeb yng nghynnyrch argraffwyr Dolgellau, er enghraifft, yna medrwch farcio rhestr gyfan o'r cofnodion perthnasol a'u gyrru i'ch cyfrif e-bost personol, neu i gyfrif person arall. Yn yr un modd medrwch chwilio am gofnodion llyfrau sydd yn eich meddiant, a chreu rhestr o lyfrau fel sail i gatalog o'ch daliadau neu restr o eitemau i'w gwerthu. Ar ôl eu safio, medrwch eu golygu, gan ychwanegu elfennau eraill fel nodiadau, prisiau gofyn ac ati.

### Gosod Cais / Archebu


Sgrin 6

A chofiwch, os oes gennych docyn darllen dilys i ddarllen yn y Llyfrgell Genedlaethol, a'ch bod yn cofio eich cyfrinair, medrwch hefyd ar ôl dewis yr opsiwn *Cofnod llawn*, glicio ar fotwm *Gosod Cais*, ac archebu'r eitem yn awtomatig.


Sgrin 7

Dylech nodi pa ddyddiad y byddwch yn ymweld â'r Llyfrgell, a gellir archebu deunydd hyd at wythnos ymlaen llaw a'i roi ar gadw i'w gasglu ar ddiwrnod penodedig. Wrth gwrs, ni fydd modd i chwi fenthyg eitemau, ac fe fydd hi'n ofynnol i chwi eu darllen yn y Llyfrgell.


**Richard E. Huws**




*Sgrin 5*




*Sgrin 6*




*Sgrin 7*

---

### *Yn yr Oriel Luniau*



"Llun beth yw hwn-na, John?"
"'Study' mae o'n ddweud."
"'Study?' na, choelia'i fawr. Cegin mwy na thebyg ydyw."

*(Wedi ei godi o 'Y Ford Gron', Rhag 1933)*

---

**YN EISIAU**

*Golwg ar y Byd* gan Y Parch. D. Lewys (1735)
Cysyllter ar (01678) 540652